**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-02-03(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 5 Chwefror 2003 |
| **Amser:** | 9.00am - 12.35pm |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

| | |
|---|---|
| Lynne Neagle **(Cadeirydd dros dro)** | Tor-faen |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru *(Eitem 4)* |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| **Yn bresennol** | |
| Dr Martin Graham | Y Swyddfa Masnachu Teg |
| Tom Jones | Cadeirydd, Grwp Llywio Cenedlaethol Braenaru ar Gymorth ac Eiriolaeth i Gleifion |
| Dr Marcus Longley | Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru |

| | |
|---|---|
| Patrick Pope | Cynghorydd, Grwp Strategaeth Gofal Cymru |
| Charles Whitworth | Y Swyddfa Masnachu Teg |
| Yr Athro Ken Woodhouse | Cadeirydd, Grwp Strategaeth Gofal Cymru |
| **Swyddogion yn Bresennol** | |
| Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Andrew Powell-Chandler | Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Mike Shanahan | Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol |
| Carwen Wynne-Howells | Prif Gynghorydd Fferyllol |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i'r Pwyllgor *(Eitem 4)* |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams ac Ann Jones. Roedd Eleanor Burnham yn cymryd lle Kirsty Williams ac Alun Pugh yn cymryd lle Ann Jones.

1.2 Cafodd Lynne Neagle ei hethol yn Gadeirydd dros dro.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Gwerthuso Cynlluniau Braenaru ar Gymorth ac Eiriolaeth i Gleifion**

*(9.05-10.05)*
**Papur: HSS-02-03(p.1)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Tom Jones, Cadeirydd Grwp Llywio Cenedlaethol Braenaru ar Gymorth ac Eiriolaeth i Gleifion a Dr Marcus Longley o Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, a oedd yn gyfrifol am werthuso'r cynlluniau peilot.

2.2 Cyflwynodd Dr Marcus Longley ganfyddiadau'r gwerthusiad o gynlluniau braenaru ar gymorth i gleifion ac eiriolaeth yn sgil cwynion yng Nghymru. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd y model ar gyfer eiriolaeth yn sgil cwynion wedi'i seilio ar brofiad Cynghorau Iechyd Cymuned ac roedd yn cael ei ystyried yn fodel ymarferol.
- Roedd pobl yn gwerthfawrogi bod gwasanaethau eiriolaeth, o'u lleoli yn y Cynghorau Iechyd Cymuned, yn fwy annibynnol, ond bod hyn yn ei gwneud hi'n anos sicrhau bod y Gwasanaeth yn dysgu gwersi yn sgil cwynion.
- Roedd staff a oedd yn gysylltiedig â gwasanaethau eiriolaeth yn sgil cwynion yn gymwys iawn. Ond, er mwyn enhangu'r cynllun, byddai angen sefydlu safonau cenedlaethol a system gadarn i sicrhau ansawdd.
- Roedd elfen cymorth i gleifion y prosiect wedi'i rhannu'n ddwy is-elfen:

- Rhagweithiol - nodi pryderon cyffredin am feysydd allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir, gan arwain at ymyrraeth i wella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Roedd y Grwpiau Iechyd Lleol yn gwneud mwy o waith rhagweithiol na'r Ymddiriedolaethau, ond ar y cyfan, cytunwyd bod modd i ddulliau rhagweithiol gael dylanwad mawr iawn, a hynny heb fuddsoddi llawer.
- Adweithiol - datrys pryderon presennol drwy ganolbwyntio ar y cleient a'r unigolyn. Roedd hon yn swyddogaeth gymharol newydd ac nid oedd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr adnoddau ar ei chyfer. Roedd yn gweithredu fel rhwyd ddiogelwch i ddod o hyd i ateb cyflym. Roedd defnyddwyr yn canmol y prosiectau peilot yn fawr, ond roedd angen ystyried materion ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft cyhoeddusrwydd, annibyniaeth, safonau cenedlaethol a pha mor hawdd oedd hi i bobl gael gafael ar y gwasanaeth.

Ceir copi o'i gyflwyniad yn Atodiad A.

2.3 Diolchodd Tom Jones i'r Cynulliad am gefnogi'r cynlluniau braenaru a thalodd deyrnged i ymrwymiad y pwyllgor llywio, y pwyllgorau lleol a'r swyddogion a oedd yn rhan o'r gwaith.

2.4 Gwnaeth Marcus Longley a Tom Jones y pwyntiau canlynol mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau:

- Roedd y grwpiau llywio lleol a oedd yn gweithio gyda Swyddogion Cymorth i Gleifion (PSOs) yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn modd agored.
- Roedd angen i wersi a gafodd eu dysgu yn sgil problemau a gafodd eu datrys yn gyflym gael eu

cynnwys yn y broses llywodraethu clinigol yn gyflym.

- Yn y cyfnod byr a oedd ar gael, roedd y cynlluniau braenaru wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i godi proffil eiriolaeth yn sgil cwynion.
- Roedd llawer o botensial ar gyfer defnyddio cleifion arbenigol yn y grwpiau llywio.
- Mantais cael PSOs o fewn Ymddiriedolaeth/Grwp Iechyd Lleol oedd bod modd i'r PSO gysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Weithredwr a'r Grwp Llywio ac y byddai modd cyflwyno newidiadau'n gyflym. Hefyd, roedd yn lleihau'r gred ymhlith staff fod rhywun o'r tu allan wedi'i alw i mewn i adrodd arnynt.
- Roedd angen dod o hyd i ffyrdd o ymestyn y gwasanaeth i gynnwys grwpiau lleiafrifol a phobl ifanc.
- Roedd angen cadw cydbwysedd rhwng y gost o ddarparu cymorth i gleifion ac eiriolaeth yn sgil cwynion â'r manteision ehangach sy'n deillio o hynny. Er enghraifft, efallai y byddai cleifion yn llai tebygol o fynd i gyfraith pe baent yn teimlo fod eu cwyn gwreiddiol wedi'i thrin mewn modd mwy effeithiol a chyflym.
- Mewn rhai meysydd, fel iechyd meddwl, bydd gofyn cael gwasanaeth eiriolaeth arbenigol o bosibl.
- Ni ddylai gwasanaethau cymorth i gleifion fod yn gweithio ar eu pennau'u hunain ond o fewn rhwydwaith ehangach. Roedd angen gwasanaeth eiriolaeth cenedlaethol i Gymru er mwyn darparu safonau a chymorth cenedlaethol.
- Nid oedd y cynllun peilot yn mynd i'r afael yn briodol â gwasanaethau profedigaeth.

2.5 Diolchodd y Gweinidog i Marcus Longley, Tom Jones a phawb a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect braenaru. Dywedodd mai'r nod oedd newid diwylliant y GIG ac y byddai gweithio mewn modd agored a di-duedd yn rhan allweddol o hyn. Byddai'n disgwyl yn awr i'r Cynghorau Iechyd Cymuned fynd i'r afael â'r her a oedd yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pwer a'r cyfrifoldebau ychwanegol a oedd yn cael eu cyflwyno iddynt. Roedd hi'n bwysig bod grwpiau lleiafrifol yn cael eu cynnwys ac roedd angen adlewyrchu hynny yn aelodaeth y Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Grwpiau Iechyd Lleol. Roedd angen ystyried rôl pobl ifanc ymhellach.

2.6 Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion a nodwyd ym mhapur y Gweinidog.

**Eitem 3: Grwp Strategaeth Gofal Cymru**

*(10.05 - 11.05am)*
**Papur: HSS-02-03(p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Ken Woodhouse, Cadeirydd Grwp Strategaeth Gofal Cymru a Patrick Pope, Cynghorydd y Grwp.

3.2 Dywedodd y Gweinidog bod y Grwp wedi'i sefydlu i roi cyngor ar y prif faterion strategol a oedd yn effeithio ar y sector gofal ar adeg o newid mawr. Yn rhan o'r newid hwnnw yr oedd materion megis tueddiadau demograffig, diwygio'r gwasanaeth iechyd, yr agenda ansawdd newydd, y fframwaith

rheoliadol newydd, newidiadau ym maes ariannu, datblygiadau ym maes technoleg sy'n effeithio ar ofal, newid yn y gweithlu a newid o ran disgwyliadau'r cyhoedd. Roedd angen i'r sector gofal gael ei ystyried fel "un sector" yn cwmpasu gofal preswyl, gofal cartref a gwasanaethau gofal a oedd yn gysylltiedig â thai, yn gwasanaethu'r un grwpiau cleient ond yn cynnig amrediad o wasanaethau i fodloni dewis unigolion a diwallu anghenion cyfnewidiol. Roedd angen deall hefyd effaith ffactorau ehangach gan gynnwys newid o ran iechyd pobl, materion yn ymwneud â ffordd o fyw a phobl yn gofalu amdanynt eu hunain.

3.3 Dywedodd yr Athro Woodhouse bod y Grwp wedi canolbwyntio ar bobl hyn gan mai hwnnw oedd y grwp mwyaf a'r un a oedd yn cynnig yr her fwyaf. Roedd y grwp yn cynrychioli ystod eang o safbwyntiau. Roedd wedi sefydlu nifer o is-grwpiau i ystyried materion yn fwy manwl. Bydd y Grwp yn cwrdd ddwywaith eto cyn llunio eu hadroddiad ddiwedd Mawrth.

3.4 Rhoddodd Patrick Pope amlinelliad o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Ceir copi o'i gyflwyniad yn Atodiad B.

3.5 Gwnaeth yr Athro Woodhouse a Patrick Pope y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

- Roedd asesiad cynhwysfawr o henoed yn gost effeithiol. Yng Nghaerdydd, roedd cadw pobl o'r ysbyty wedi arwain at arbedion cychwynnol o dros £500,000. Roedd hyn hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.
- Gofynnwyd i'r Grwp edrych mewn modd strategol ar gomisiynu gwasanaethau, ond nid ar lefelau ffioedd.
- Bu newid mawr ym mhatrwm gofal i'r henoed gyda llai o bwyslais ar ofal arhosiad hir mewn ysbyty.
- Roedd darparwyr yn y sector annibynnol wedi bod yn trafod materion staffio a'r gobaith oedd y byddai'r trafodaethau'n parhau.
- Roedd gofal seibiant yn fater pwysig iawn. Roedd y pwysau cynyddol ar ofalwyr yn broblem ddifrifol ac roedd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ar gapasiti.
- Dylid defnyddio asesiadau aml-broffesiynol i benderfynu ar y math gorau o ofal seibiant. Er y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ddewis yr unigolyn ni allai fod yn brif flaenoriaeth gan fod gwrthdaro'n digwydd yn aml rhwng dewis y cleient a dymuniadau'r gofalwr.
- Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda grwpiau gofalwyr i glywed eu barn ac i'w hysbysu ar hynt y gwaith. Roedd dau gynrychiolydd o grwpiau gofalwyr ar y Grwp Strategaeth Gofal a oedd yn aelodau o'r Panel Adolygu Gofalwyr.

3.6 Dywedodd y Gweinidog hefyd bod £12m wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r oedi o ran trosglwyddo gofal. Roedd tua hanner o'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gynyddu lefelau ffioedd yn y sector gofal cartref. Gofynnwyd i'r grwp edrych ar lefelau ffioedd mewn ffordd strategol yn unig gan eu bod eisoes wedi cydnabod mai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ddylai ymgymryd â'r gwaith hwn, gyda chyfraniad annibynnol y sector. Roedd y Gweinidog wedi ceisio

sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â safonau gofal mewn ffordd mwy ymarferol a chytbwys, gan ystyried yr effaith ar y darparwyr ac ar anghenion y defnyddwyr. Roedd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredu ar 23 Ionawr. Roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal hefyd gyda'r sector cartrefi bychain i geisio ysgafnhau'r baich a ddaw yn sgil rheoleiddio.

**Gweithredu**

- Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y gwaith yr oedd CLlLC yn ei wneud ar ffioedd.

**Eitem 4: Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003; a Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003*(11.20 - 11.30am)***

**Papurau: HSS-02-03(p.3); HSS-02-03(p.3a); HSS-02-03(p.3b) a HSS-02-03(p.3c)**

4.1 Yn unol â’r weithdrefn y cytunodd y Pwyllgor arni'n flaenorol ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth, roedd gwelliannau i’r Rheoliadau drafft wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod a gellir eu canfod ym mhapur HSS-02-03(p.3c).

**Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003**

(Papur HSS-02-03(p3b))

**Gwelliant 1 - cynnig gan Dai Lloyd AC, Plaid Cymru**

*Yn rheoliad 2(3), dileu "£20,000" ac yn ei le rhoi "£25,000".*

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cynnig cynyddu terfynau cyfalaf uchaf ac isaf y prawf moddion ar gyfer gofal preswyl o £11,750 i £12,250 ac o £19,000 i £20,000 . I hwyluso'r gwaith gweinyddol, cafodd y newidiadau i'r terfynau hyn eu talgrynnu i'r £250 agosaf. Roedd cynnydd o 4.3% yn y terfyn cyfalaf uchaf a 5.3% yn y terfyn cyfalaf isaf, sy'n uwch o lawer na chwyddiant, yn uwch na'r cynnydd mewn enillion cyfartalog ac yn fforddiadwy o fewn cyllideb y Cynulliad ar gyfer cynnydd mewn costau gwariant llywodraeth leol. Byddai'r terfynau cyfalaf yn uwch na'r rhai ar gyfer 2003-04 yn Lloegr a'r Alban, ac roedd hyn yn pennu trywydd unigryw i Gymru.

Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn credu y dylai pobl gael eu gwobrwyo am gynilo. Hefyd, roedd tai'n cael eu hystyried fel rhan o'u cynilion ac er bod gan lawer o bobl Cymru incwm isel, roedd mwy o bobl yng Nghymru yn berchen ar dai.

Dywedodd David Melding bod Plaid Geidwadol Cymru yn cefnogi'r gwelliant hwn, er ei fod ymhell o dan y pris cyfartalog am dy.

Ymateb y Gweinidog

Ni dderbyniwyd y gwelliant. Byddai'n ychwanegu £5,000 at y terfyn cyfalaf uchaf, cynnydd o 32% ar y terfyn presennol. Ni fydd yn cynyddu nifer y bobl na fyddai'n gorfod talu am eu gofal yn fwy na'r rheoliadau a gyflwynwyd. Ond, byddai'n ymestyn y 'tariff' yn fawr (£1 o incwm am bob £250 o gyfalaf). Amcangyfrifir mai £3.2 miliwn fyddai'r gost i gyllidebau'r awdurdodau lleol. Byddai'n rhaid i'r awdurdodau gael grant arbennig, a byddai'n rhaid tynnu arian oddi wrth raglenni eraill y Cynulliad i dalu amdano. Byddai'r gwaith gweinyddu ychwanegol o ganlyniad i'r grant arbennig yn rhoi mwy o bwysau ar lywodraeth leol. Byddai'r cymorth ychwanegol y byddai'r awdurdodau lleol yn ei roi o ganlyniad yn cymryd lle'r Lwfans Gweini, a ddaw i ben pan fydd pobl yn derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer eu gofal. Cytunwyd bod angen gwella'r trefniadau presennol, ond bod rhaid gwneud hynny mewn ffordd gyfrifol gan ddefnyddio data o ansawdd da i ddeall y manteision a'r anfanteision. Mae mwy o waith yn cael ei wneud.

Pleidleisiodd y pwyllgor ar Welliant 1

O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 5

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn |
|---|---|
| Geraint Davies | Eleanor Burnham |
| Jocelyn Davies | Brian Gibbons |
| Dai Lloyd | Jane Hutt |
| David Melding | Lynne Neagle |
| | Alun Pugh |

Casgliad

Trechwyd y gwelliant.

**Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003**

(Papur HSS-02-03(p3a))

**Gwelliant 2 - fe'i cynigiwyd gan David Melding AC, Ceidwadwr**

*Yn rheoliad 2, dileu "£17.80" a rhoi "£20.00" yn ei le.*

Dywedodd David Melding ei fod yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn cynnig mwy o gynnydd na'r

hyn a gynigir yn Lloegr, ac felly'n derbyn yr egwyddor y dylai Cymru gael system wahanol. Serch hynny, nid oedd yn credu bod £20 yn ormod o arian gwario i oedolion.

Roedd Plaid Cymru'n cefnogi'r gwelliant.

Ymateb y Gweinidog

Ni dderbyniwyd y gwelliant. Roedd y rheoliadau yn cynnig cynyddu'r Lwfans Costau Personol £1 yr wythnos yn 2003-04 o £16.80 i £17.80. Dyma gynnydd o bron i 6% a thua 1½ gwaith yn fwy na'r cynnydd mewn enillion cyfartalog. Roedd y cynnydd hwn yn arwydd o gyfeiriad newydd yng Nghymru, a rhagwelwyd y byddai'n uwch na'r newid yn Lloegr. Byddai’r cynnydd yny gwelliant o £20 yr wythnos yn golygu cynnydd o 19% yn lwfans y flwyddyn bresennol. Byddai nifer y bobl sy’n cael budd o'r newid hwn yr un faint â’r nifer o dan y rheoliadau a gyflwynwyd, ond byddant yn well eu byd. Byddai 19% y tu hwnt i’r hyn sydd wedi’i neilltuo yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer cynnydd yng nghostau llywodraeth leol, a byddai'n rhaid dod o hyd i'r £1.9 miliwn ychwanegol o gyllidebau eraill y Cynulliad.

Roedd y Gweinidog yn derbyn y pwynt cyffredinol a wnaed bod angen cynyddu'r lwfans hwn yn sylweddol pan fydd yn gallu ei fforddio.

Pleidleisiodd y pwyllgor ar Welliant 2

O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 5

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn |
|---|---|
| Geraint Davies | Eleanor Burnham |
| Jocelyn Davies | Brian Gibbons |
| Dai Lloyd | Jane Hutt |
| David Melding | Lynne Neagle |
| | Alun Pugh |

Casgliad

Trechwyd y gwelliant.

4.2 Dywedodd Dai Lloyd a David Melding y byddant yn ceisio diwygio'r rheoliadau pan gânt eu gosod gerbron y Cynulliad.

**Eitem 5: Y Swyddfa Masnachu Teg - Astudiaeth Fasnach o Drwyddedau Fferyllfeydd**

*(11.30 – 12.30pm)*

5.1 Fe wnaeth y Gweinidog groesawu Dr Martin Graham a Charles Whitworth o'r Swyddfa Masnachu Teg.

5.2 Amlinellodd Charles Whitworth argymhellion a phrif gasgliadau'r astudiaeth, sef:

- dod i ben â'r rheoliadau sydd yn rheoli nifer y fferyllfeydd newydd yn y DU;
- ni fyddai'n effeithio ar gofrestru fferyllfeydd a fferyllwyr;
- bydd y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru yn gallu darparu presgripsiynau'r GIG;
- dod i ben â'r rheoliadau ardal reoledig sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, gan gynnwys y "prawf rhagfarn";
- mater i'r adrannau iechyd yw’r trefniadau ar gyfer meddygon sydd â hawl i ddosbarthu cyffuriau;
- bydd cystadleuaeth o fudd i’r gwasanaethau a'r prisiau;
- bydd fferyllfeydd newydd yn fanteisiol hefyd;
- ni fydd mwy o gystadleuaeth yn peryglu cyfleoedd pobl i gael at wasanaethau fferyllol;
- bydd yn gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd;
- bydd busnesau a'r GIG yn arbed arian.

5.3 Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nid yw'r adroddiad yn argymell newidiadau i'r rheolau sylfaenol sy’n datgan hawl cleifion unigol y GIG i gael cyffuriau o’r fferyllfeydd.
- Ni fyddai'n effeithio ar y cymhellion i annog fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwasanaethau lle y mae galw amdanynt.
- Rhoddwyd ystyriaeth fanwl yn yr astudiaeth i wasanaethau ar gyfer pobl mwy bregus. Yn groes i’r disgwyl, ni chaiff y newidiadau effaith negyddol ar bobl fregus. Ceir y manylion yn yr ail atodiad i'r prif adroddiad.
- Nid oedd yr adroddiad o blaid darparu gwasanaethau fferyllol mewn archfarchnadoedd. Byddai dadreoleiddio yn rhoi cyfle i fferyllwyr annibynnol llai o faint a pherchnogion preswyl i sefydlu busnesau newydd.
- Cafwyd sylwadau oddi wrth lawer o fferyllwyr unigol a oedd yn teimlo bod y rheoliadau presennol yn eu rhwystro rhag agor busnesau newydd a darparu gwasanaethau fel yr dymunent.
- Dygwyd i ystyriaeth y ffordd y mae fferyllfeydd cymunedol ledled y byd yn cael eu rheoli.
- Roedd cysylltiad y Swyddfa Masnachu Teg yn dod i ben wedi cyhoeddi’r adroddiad hwn. Roedd yn fater i Lywodraeth y DU bellach.

5.4 Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Nid oes tystiolaeth y bydd mwy o gystadleuaeth yn golygu gwella gwasanaethau i gleifion.
- Wrth gyhoeddi "Moddion i Lwyddo: Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru", cytunodd y

Cynulliad bod fferyllwyr yn adnodd sy'n cael ei dan-ddefnyddio. Dylent fod yn rhan annatod o'r tîm gofal sylfaenol am eu bod yn glinigwyr medrus iawn. Fel rhan o'r tîm hwnnw, byddai ganddynt y sgiliau i leihau’r pwysau ar feddygon teulu. Fel y cyfryw, dylai lleoliad fferyllfeydd gael ei benderfynu yn ôl anghenion iechyd y gymuned. Mae’n bwysig hefyd bod pobl yn gallu ymgynghori â fferyllydd mewn lleoliad addas. Roedd adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg yn mynd yn groes i'r egwyddor hon.

- Mynegwyd pryder ynghylch effaith dadreoleiddio mewn ardaloedd lle y ceir anghydraddoldebau iechyd.
- Roedd yr agymhelliad "all registered pharmacies **may** dispense NHS prescriptions" yn awgrymu y byddai'r fferyllydd yn gallu dewis peidio â dosbarthu cyffuriau i glaf pe bai’n dewis. Er enghraifft, efallai na fyddai’n ystyried claf sydd angen methodone yn 'ddymunol'.
- Mae'n bosibl na fyddai darparu pecynnau i'r claf a chludo cyffuriau i'w cartrefi, yn ymarferol fasnachol yn ôl rhai fferyllfeydd.
- Roedd fferyllwyr cymunedol annibynnol wedi buddsoddi arian sylweddol yn eu hadeiladau, eu hoffer a'u staff. Os byddent yn credu y gallai archfarchnadoedd neu fferyllfeydd mawr gael y gorau arnynt, efallai na fyddant yn barod i gymryd y risg.

5.5 Dywedodd y Gweinidog y bu'r drafodaeth yn ddefnyddiol iawn, a byddai o gymorth mawr wrth iddi baratoi ymateb i Lywodraeth y DU ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru.

5.6 Gofynnodd yr aelodau i’r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog gan amlinellu pryderon y Pwyllgor.

**Gweithredu**

- Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch pryderon y Pwyllgor am y cynigion i ddadreoleiddio trwyddedau fferyllfeydd.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2003**
**Papurau: HSS-01-03(min)**

6.1. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr cyhyd â bod Lynne Neagle yn cael ei dileu o'r rhestr o’r rhai a oedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## Atodiad A

## Atodiad B